Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Bro Brynach**
**Llanboidy**
**Hendy-gwyn ar daf**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0EL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/09/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bro Brynach wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanboidy ger Hendy-gwyn ar Daf yn Sir Gaerfyrddin. Ysgol ardal yw hon, sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 3-11 oed o gymunedau Cwmbach, Henllan Amgoed, Llanboidy a Llangynin.

Mae 97 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 17 o oed meithrin. Mae pedwar dosbarth oed cymysg yn yr ysgol. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y tymor canlynol os dyna yw dymuniad y rhieni. Mae tua 20% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Nid oes disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae 2% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae 12% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Ychydig iawn o'r disgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Chwefror 2012. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 2004. Yn ogystal â'r pennaeth, sydd â gofal dosbarth am bedwar diwrnod yr wythnos, mae tair athrawes amser llawn.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Bro Brynach yn 2014-2015 yw £3,678. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Bro Brynach yn y 52fed safle o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda
- o ystyried eu cefndir ieithyddol, bod medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n fuan a llawer ohonynt yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu
- bod rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- bod athrawon yn darparu profiadau dysgu cyfoethog, bod mwyafrif yr addysgu yn effeithiol a chymorthyddion yn cefnogi dysgu yn llwyddiannus
- bod iddi ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd

- bod y pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rhannu gweledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a hapusrwydd a lles disgyblion
- bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- bod y cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a bod y pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau
- bod holl aelodau'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- bod ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau bod her y gweithgareddau dysgu yn galluogi disgyblion o bob gallu i wneud cynnydd llawn

A4 Cysoni'r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau cyfleoedd priodol i ddisgyblion ymateb i'r adborth ar sut i wella

A5 Cryfhau'r trefniadau monitro i alluogi llywodraethwyr i herio'r ysgol yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau sy'n briodol i'w hoed, ac eithrio yn y Gymraeg, sydd yn newydd i lawer ohonynt. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau llafar disgyblion eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus, gan fynegi eu hunain yn glir a chywir, er enghraifft, wrth drafod yr hyn sy'n bwysig iddynt am fywyd yn yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod briodol o eirfa addas yn Saesneg, er enghraifft i fynegi barn wrth drafod cadw'n ddiogel. Mae llawer yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf yn deall y cyd-destun a rhediad y storiâu ac yn trafod y cynnwys yn ddeallus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg ac yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gywain gwybodaeth, er enghraifft greu llinell amser am fywyd Jemima Niclas. Mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda, er enghraifft, wrth gywain gwybodaeth am fywyd yn Oes Fictoria.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu Cymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus, gan amrywio brawddegau ac atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n briodol i'w hoedran ar draws yr ardaloedd dysgu. Fodd bynnag, maent yn gorddibynnu ar daflenni gwaith, sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion o allu uwch i ysgrifennu'n annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gwaith llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn effeithiol at amrywiaeth o ddibenion. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 ysgrifennu am daith y Cymry i'r Wladfa. Er hyn, prin yw'r enghreifftiau o ddisgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg. Nid yw cyflwyniad gwaith disgyblion yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r mwyafrif yn ymdrin â gweithgareddau datrys problemau syml a gwaith pen yn briodol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu data'n effeithiol gan drosglwyddo'r wybodaeth i ffurf graff. Enghraifft o hyn yw'r graff sy'n cofnodi gwaith disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi chwilio am fwystfilod yn yr amgylchedd. Mae safonau rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth briodol o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud defnydd priodol o ddata i gefnogi eu gwaith ar y gwahanol themâu. Enghraifft o hyn yw gwaith Blwyddyn 5 a 6 wrth gofnodi sut mae poblogaeth y byd wedi cynyddu fesul degawd ers 1950. Er hyn, nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol, yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Mae llawer o'r disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd priodol ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu. O ganlyniad, nid yw disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd llawn.

Gall y niferoedd bach o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol mewn asesiadau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o un flwyddyn i'r llall.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is neu'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg, Saesneg a mathemateg wedi gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn ei gosod gan amlaf yn y 25% uchaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch wedi amrywio'n arwyddocaol rhwng y 25% uchaf i'r 25% isaf. Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

### Lles: Digonol

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent hefyd yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill y gwersi ac yn ystod amser chwarae. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau eu hunain yn effeithiol i'r hyn y byddant am ei ddysgu. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae medrau disgyblion i wella eu dysgu eu hunain

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yr ysgol is nag ysgolion tebyg. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae llais y disgyblion yn cael sylw da, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco. Mae'r aelodau yn mynegi barn ac yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion eraill.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu bywiog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r gweithgareddau hyn yn adeiladu'n briodol ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn sicrhau datblygiad a chynnydd yng nghyflawniad llawer ohonynt. Mae'r amrywiaeth eang a chyson o ymweliadau addysgol, ymwelwyr a'r profiadau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion drwy ennyn eu brwdfrydedd a'u diddordeb at eu themâu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad o weithgareddau sy'n sicrhau bod cyfleoedd da i ddisgyblion defnyddio'u medrau llythrennedd. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau cyfleodd cyson i'r disgyblion ymestyn eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn cynnig profiadau gwerthfawr ac amrywiol sy'n hyrwyddo a datblygu gwybodaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth leol ac o hanes, diwylliant, dathliadau a thraddodiadau Cymreig. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion B5 a 6 ar chwedl llyn y Fan Fach sy'n dangos ymwybyddiaeth y disgyblion o chwedlau lleol.

Drwy hyrwyddo ysgol eco ac ysgolion iach yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol. O ganlyniad i gysylltiadau buddiol â gwledydd tramor, mae disgyblion yn e-bostio ac yn ysgrifennu llythyron i ysgolion ym Mhatagonia a gwlad Pwyl. Mae hyn yn hybu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cysylltiadau rhyngwladol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol briodol ac mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith er mwyn gwella ansawdd iaith lafar disgyblion. Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, yn y mwyafrif o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gosod disgwyliadau uchel ac maent yn rhoi blaenoriaeth dda i ddatblygu medrau allweddol llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, mae cyflymdra'r gwersi'n dda ac mae'r athrawon yn holi'r plant yn effeithiol mewn dull sy'n eu hannog i roi atebion estynedig. Yn y gwersi hyn, mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn eu dysgu.

Lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes digon o ystyriaeth i lefelau gallu gwahanol mewn dosbarth. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn. Mae gor-gyfarwyddo yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith yn gyson ac mewn llawer o'r llyfrau, maent yn cynnwys sylwadau adeiladol ar sut i wella'r gwaith. Fodd bynnag, anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r awgrymiadau ar sut i wella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau clir ar gyfer cofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio canlyniadau asesiadau yn effeithiol i drefnu cymorth ychwanegol i ddisgyblion penodol sydd yn cyfrannu at wella deilliannau. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'n ysgol hapus a gofalgar sy'n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch y disgyblion. Mae ganddi bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac mae'n darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol. Mae'r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion, eu datblygiad ysbrydol ac ethos yr ysgol. Yn ddiweddar, mae gweithdrefnau addas wedi eu mabwysiadu i wella presenoldeb. Fodd bynnag, nid ydynt hyd yma wedi llwyddo i godi lefelau presenoldeb disgyblion.

Mae gan yr ysgol gyswllt effeithiol gyda nifer o wasanaethau cymorth, gan gynnwys seicolegydd addysg ac athrawon arbenigol. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth ac arweiniad cadarn ar gael i ddisgyblion, staff a rhieni yn ôl yr angen.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff anghenion disgyblion eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth o arsylwadau a phrofion yn ofalus i ddarparu raglenni ymyrraeth addas. Mae targedau clir a mesuradwy yn y cynlluniau addysg unigol ac mae'r athrawon yn cysylltu'n rheolaidd gyda rhieni am ddatblygiad eu plant.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle caiff disgyblion eu trin yn gyfartal. Mae'r holl staff yn annog ymddygiad da'r disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae'r ysgol yn annog cydweithrediad, gofal a pharch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac yn talu sylw i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer sicrhau nad oes yr un disgybl yn dioddef oherwydd anfantais.

Lleolir yr ysgol ar safle braf ac mae ansawdd yr adeilad o safon uchel. Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu diogel a deniadol ac mae arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion. Mae'r toiledau'n lân ac addas a chaiff yr holl safle a'r adeilad eu cadw'n raenus. Mae ardaloedd allanol amrywiol yr ysgol yn annog y disgyblion i gadw'n iach a gwerthfawrogi'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Maent wedi'u storio'n drefnus, ac yn hylaw i'w defnyddio gan holl staff a disgyblion yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau profiadau dysgu cyfoethog a hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae'r pennaeth wedi creu awyrgylch cynhaliol lle mae disgyblion a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae ethos o gydweithio agos yn bodoli er lles y disgyblion.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ar y cyd. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r athrawon wedi diweddaru'r cynlluniau ar gyfer cynnwys rhifedd yn fwy cyson ar draws yr ysgol er mwyn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r ysgol yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol ac yn defnyddio grantiau cenedlaethol i wella'r ddarpariaeth i ddatblygu annibyniaeth ymysg y disgyblion wrth ddysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Trwy dderbyn adroddiadau'r pennaeth a chynnal ymweliadau rheolaidd i edrych ar ddarpariaeth ac i arsylwi ar wersi, mae'r aelodau yn datblygu dealltwriaeth dda o sut mae'r ysgol yn perfformio. Er hyn, nid ydynt yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn ddigon effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu trefniadau hunanarfarnu trylwyr sy'n sicrhau bod gan yr ysgol ymwybyddiaeth glir o'i chryfderau a'r agweddau sydd angen eu datblygu. Mae'r trefniadau yn seiliedig ar ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol sy'n cynnwys dehongli data, arsylwi gwersi a monitro gwaith disgyblion. Fodd bynnag, hyd yn ddiweddar, nid yw'r trefniadau monitro wedi bod yn ddigon miniog i fynd i'r afael a'ragweddau sydd angen eu gwella. Mae'r pennaeth wedi cryfhau'r trefniadau i ganolbwyntio'n fwy penodol ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion. Mae'r ysgol yn ystyried barn y disgyblion a rhieni yn ofalus ac yn ymateb yn dda i argymhellion swyddogion gwella ysgol. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cywir o safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yr ysgol.

Mae'r staff yn trafod canfyddiadau'r gweithgareddau hunanarfarnu yn rheolaidd ac mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o safonau'r disgyblion yn briodol. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi adnabod nifer o agweddau sydd yn cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu cyfredol fel blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, mae'r cynllun yn nodi bod rhaid i systemau hunanarfarnu gael effaith arwyddocaol ar y safonau a'r ddarpariaeth. Mae cyswllt amlwg rhwng y cynllun datblygu ysgol a'r hunanarfarnu. Mae'r pennaeth wedi rhoi nifer o strategaethau a phrosesau gwerthfawr ar waith sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi safonau. Mae'r cynllun yn cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro trylwyr. Mae'r ysgol yn gwerthuso cynnydd ac effeithiolrwydd ei darpariaeth yn dda yn erbyn y blaenoriaethau cyfredol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn cynnig cyngor gwerthfawr i'r rhieni ar sut i gefnogi eu plant yn eu dysgu. Daw nifer o'r rhieni i'r ysgol i gynnig arbenigedd ar wahanol weithgareddau, er enghraifft cynllunio a dylunio murlun gyda'r disgyblion, datblygu'r ardd a gweithgareddau Campau'r Ddraig. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn cyfrannu'n dda at gyllid yr ysgol wrth brynu adnoddau ychwanegol, er enghraifft adnoddau technoleg gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion

Mae'r ysgol yn agos at ei chymuned. Mae taflen newyddion yn cynnig gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau'r ysgol. Mae'r rhain yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda ac yn eu helpu i fagu medrau cymdeithasol gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â mudiadau Cymreig fel yr Urdd sy'n datblygu adnabyddiaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru. O ganlyniad, mae ychydig o ddisgyblion wedi bod yn llwyddiannus mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol.

Mae cysylltiad â'r ysgol feithrin gyfagos yn sicrhau trefniadau hwylus wrth i'r plant gychwyn yn yr ysgol. Mae trefniadau pontio gyda'r ysgolion uwchradd yn sicrhau trosglwyddo effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd adnoddau a staff un ysgol uwchradd i ehangu profiadau addysg gorfforol disgyblion er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad yn eu datblygiad corfforol wrth iddynt symud i'r cyfnod nesaf yn eu dysgu.

Mae'r athrawon yn cyfarfod ag ysgolion eraill y clwstwr i gymedroli a safoni gwaith y disgyblion gan adnabod safonau, cynllunio ar gyfer gwelliant a rhannu arfer dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chymorthyddion i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad llawn i bob agwedd o weithgareddau a bywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn defnyddio cymorthyddion yn effeithiol ar gyfer cefnogi disgyblion penodol.

Mae gan yr ysgol drefn glir ar gyfer rheoli perfformiad athrawon sydd yn eu galluogi i adnabod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer datblygiad personol. Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu'r athrawon yn briodol ac yn cyfrannu'n

dda tuag at sicrhau gweithdrefnau effeithiol a fyddai'n gwella'r ddarpariaeth. Mae rhwydweithiau o arfer broffesiynol gyda theulu ysgolion Dyffryn Taf yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion, er enghraifft trwy'r prosiect sy'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer rhifedd.

Gwneir defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gynnal grwpiau ymyrraeth i'r disgyblion hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn rhifedd. Er hyn, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod y gyllideb yn ofalus ac yn cytuno ar y blaenoriaethau i'w cyllido. Maent yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i fodloni blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692389 - Ysgol Bro Brynach**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 10 | 12 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 80.0 | 75.0 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 11 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 90.9 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 54.5 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.0 | 75.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 10.0 | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 12 | 15 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 100.0 | 93.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 90.0 | 100.0 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692389 - Ysgol Bro Brynach**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 96 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 1.0 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 7 | 7 | 14 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 85.7 | 85.7 | 71.4 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | 14 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 85.7 | 71.4 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 71.4 | 57.1 | 35.7 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | 14 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 71.4 | 71.4 | 66.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 57.1 | 28.6 | 28.6 | 8.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | 14 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 100.0 | 85.7 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 42.9 | 28.6 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 7 | 14 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 28.6 | 42.9 | 21.4 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 43 | 42 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 37 | 36 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 43 | 42 | 1 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 42 | 40 | 2 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 43 | 40 | 3 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 40 | 40 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 43 | 40 | 3 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 43 | 42 | 1 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 43 | 37 | 6 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 42 | 38 | 4 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 36 | 28 | 8 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 78% | 22% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 42 | 40 | 2 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 27 | 20 | 6 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 74% | 22% | 0% | 4% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 27 | 23 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 27 | 21 | 6 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 19 | 6 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 73% | 23% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 16 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 24 | 17 | 7 | 0 | 0 | 3 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 27 | 18 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 67% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 25 | 14 | 8 | 2 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 56% | 32% | 8% | 4% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 15 | 10 | 2 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 56% | 37% | 7% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 27 | 21 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 20 | 14 | 5 | 1 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 70% | 25% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 26 | 13 | 10 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 50% | 38% | 8% | 4% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 27 | 18 | 7 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 67% | 26% | 4% | 4% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 24 | 13 | 10 | 1 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 16 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 17 | 11 | 6 | 0 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 27 | 15 | 10 | 2 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 56% | 37% | 7% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 25 | 19 | 6 | 0 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Deris Davies Williams | Arolygydd Lleyg |
| Robert Gwyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceirios Jenner | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.